



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



PARTNERIAETH

At sylw:
Y Cyng. Darren Price
Cadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth

Gofynnwch am: Y Tîm Craffu
Rhif ffôn y Swyddfa Craffu: 01792 637256
e-bost: scrutiny@swansea.gov.uk
Dyddiad: 10 Gorffennaf 2023

Annwyl Gyngorydd Price

Grŵp Cyngorwyr Craffu Partneriaeth – 19 June 2023

Hoffai'r Grŵp Cyngorwyr Craffu ddiolch i chi, Ian Altman Swyddog Arweiniol, Gwennan Schiavone Ymgynghorydd Strategol, Helen Morgan Rees Cyfarwyddwr Addysg Abertawe a Steven Richard Downes Cyfarwyddwr Addysg Sir Benfro am ddod i'n cyfarfod, am gyflwyno'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac am ateb ein cwestiynau. Ysgrifennaf atoch i gyfleu ein safbwyntiau o'r cyfarfod hwnnw.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Arweiniol yr eitemau ar agenda cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor Partneriaeth ar 23 Mehefin, ac eglurodd y bydd yn cynnwys cyllideb ddrafft Partneriaeth ar gyfer 2023-24 a chynllun ariannol tymor canolig drafft ar gyfer 2023-24 i 2026-27, perfformiad Partneriaeth 2022-23, Cynllun Strategol/Cynllun Busnes newydd Partneriaeth 2023-24 a'r gofrestr risg ddiweddaraf.

Yn gyntaf, cawsoch eich gwahodd i roi barn ar sut y credwch fod pethau'n dod yn eu blaenau ac i drafod a rhoi sicrwydd i'r Grŵp Cyngorwyr Craffu bod Partneriaeth yn gweithredu yn unol â'r Cytundeb Cyfreithiol, ei Gynllun Busnes a bod ei amserlen yn cael ei rheoli'n effeithiol. Dywedasoch, cyn datblygu Partneriaeth, y bu'r partneriaethau rhanbarthol yn gymhleth ac yn anghyson. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gydweithio ar draws awdurdodau lleol, sydd wedi arwain at fodel rhanbarthol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd yr haen ganol o wasanaethau cymorth ar gyfer addysg yn cael ei hadolygu'n genedlaethol cyn bo hir ac y bydd Partneriaeth yn rhan o hynny.

Dywedasoch hefyd fod y Cynllun Busnes presennol a'i chwe blaenoriaeth wedi'u datblygu ar y cyd â'r tri awdurdod lleol, ac felly eu bod yn seiliedig ar amcanion lleol. Bydd y Cynllun Busnes newydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor ar 23 Mehefin, a bydd yn cynnwys pedwar blaenoriaeth allweddol sydd hefyd yn seiliedig ar amcanion lleol a bod y Gofrestr Risg yn cael ei hadrodd i'r Cyd-bwyllgor a'r Grŵp Cyngorwyr Craffu fel eitem sefydlog. Dywedasoch felly eich bod yn teimlo'n hyderus bod Partneriaeth yn gweithredu yn unol â'r Cytundeb Cyfreithiol, ei Gynllun Busnes a'i fod yn gweithredu yn unol â'i amserlen. Er i chi ddweud y bydd lle i wella bob amser ac yr hoffech weld tystiolaeth gliriach o fesur effaith, allbwn a gwerth am arian ac i ysgolion gael y cyfle i fynegi eu barn ar effeithiolrwydd Partneriaeth.

Gofynnwyd i bob un o'r Cyfarwyddwyr roi eu barn ar y modd y mae Partneriaeth yn gweithredu ar ran eu Cyngor, a'r heriau y maent yn eu hwynebu, a gofynnwyd am sicrwydd gan yr holl gynghorau eu bod yn credu bod Partneriaeth yn gweithredu yn unol â'r Cytundeb Cyfreithiol, ei Gynllun Busnes, a bod ei amserlen yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Yn gyntaf buom yn siarad â Chyfarwyddwr Addysg Abertawe, ac amlinellodd yr heriau y mae Partneriaeth yn eu hwynebu o safbwynt Abertawe, a oedd yn cynnwys:

- Sut i wneud y defnydd gorau o'r cyllid sy'n dod i mewn, gan gynnwys rhannu adnoddau.
- Gwerthuso perfformiad, fel bod yr effaith a'r allbwn yn cael eu nodi.
- Dod â phawb at ei gilydd i allu rhannu a thrafod materion.
- Yr angen i ystyried pecyn cynhwysfawr cynhwysol i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd.
- Cael barn 'cwsmeriaid' a defnyddio hyn i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae o'r farn bod y Cynllun Busnes newydd yn gliriach; mae iddo lai o flaenoriaethau ond y rheiny'n rhai priodol, ac y bydd yn cydblethu'n dda â gwaith yr awdurdodau lleol. Mae'n hapus i weld Partneriaeth yn datblygu ac yn gwrandao ar farn yr holl randdeiliaid. O safbwynt Abertawe, mae Partneriaeth yn gweithredu yn unol â'r Cytundeb Cyfreithiol, ei Gynllun Busnes a'i amserlen.

Yna siaradom â Chyfarwyddwr Addysg Sir Benfro, a ddywedodd ei fod yn gweld llawer o heriau tebyg i Abertawe, ond soniodd hefyd:

- Bod yr ystod o gymorth a gynigir yn ddefnyddiol ond bod angen mireinio'r cynnig hwnnw ymhellach.
- Bod datblygiad pellach o ran llythrennedd a rhifedd yn allweddol.
- Bod 'annibyniaeth disgyblion a gwerthuso eu gwaith eu hunain' wedi bod yn thema mewn arolygiadau diweddar gan Estyn, felly mae angen i ni blethu hyn i'r cynllun busnes.
- Rhaid gwneud yn siŵr bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n dda ac er lles gorau ysgolion. Hefyd datrys unrhyw faterion yn ymwneud â dyblygu adnoddau.
- Bod y Cwricwlwm Newydd yn her barhaus.
- Y ffaith bod cynifer o fentrau ar gael a'r pwysau di-baid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â hyn. Rhaid i ni ystyried hyn yn ofalus neu byddwn yn parhau i gael problemau o ran llwyth gwaith. Mae angen ystyried y modd yr ydym yn rheoli'r hyn a ddaw dros y gorwel gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnod hwn, lle gwelwyd newid enfawr eisoes, fel nad yw ysgolion yn cael eu gorlwytho.
- Bod angen mesur effeithiolrwydd ac effaith Partneriaeth yn uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.

Cytunodd fod y Cyd-gytundeb yn gweithio'n dda a bod Partneriaeth yn gwneud y pethau iawn i ysgolion.

Roeddem yn falch o glywed bod gan bawb ddarlun cadarnhaol o Partneriaeth, tra'n cydnabod bod llawer o heriau'n dal i fodoli i Partneriaeth a phob un o'r tri awdurdod lleol. O'r drafodaeth hon, roeddem yn teimlo'n dawel ein meddwl bod Partneriaeth yn gweithredu yn unol â'r Cytundeb Cyfreithiol, ei Gynllun Busnes a bod ei amserlen yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Rhoddodd Ian Altman ddiweddariad i ni ar y proffil risg presennol, a chlywsom y byddai'r proffil yn newid ychydig i gyd-fynd â'r Cynllun Busnes newydd. Codwyd y mater o ran amseru cyllid grant Llywodraeth Cymru eto.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch rôl Partneriaeth, a chlywyd bod y risg hon yn un hanesyddol a bod gan Partneriaeth bellach swyddogaeth glir a nodir yn y Cynllun Busnes newydd, sy'n cynnwys pedwar maes blaenoriaeth lefel uchel newydd a ddatblygwyd gyda phob un o'r tri awdurdod lleol. Bydd cydnabod llwyddiant hefyd yn dibynnu ar gydweithio, ymgysylltu a gwerthuso wrth symud ymlaen.

Cytunodd y Grŵp Cynghorwyr, fel rhan o'i raglen waith, i edrych ar berfformiad pob un o flaenoriaethau Partneriaeth, felly croesawodd y Grŵp Cynghorwyr Gwennan Schiavone, Ymgynghorydd Strategol Partneriaeth i adrodd ar Flaenoriaeth 2: Datblygu darpariaeth addysg o ansawdd uchel – gwella'r addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion.

Clywsom am y

- Dysgu proffesiynol, ymholi ac ymchwil i ddatblygu'r cwricwlwm (dan arweiniad yr ysgol)
- Dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrio.
- Y grant llythrennedd a rhifedd/Cynllun Llafaredd Cynradd i Gymru.
- Cymorth rhanbarthol i ieithoedd modern/meithrin gallu yn y sector cynradd.
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol/sgiliau codio a digidol.
- Y Gymraeg mewn Addysg.
- Gwelliant ôl-16.

Gofynnwyd am y Prosiectau Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP) a chlywsom fod 59 o ysgolion ledled y rhanbarth wedi cymryd rhan. Mae'r rhain yn ysgolion sy'n gwneud eu darn eu hunain o ymchwil, gan weithio gyda'r Prifysgolion a Partneriaeth. Rhennir canlyniad y gwaith hwn ar Hwb felly mae iddo fudd ehangach. Mae digwyddiad i rannu arfer da ledled y rhanbarth hefyd wedi'i drefnu ar gyfer Gorffennaf 2023. Edrychwn ymlaen at glywed rhagor am rai o'r prosiectau hyn yn ein cyfarfodydd yn y dyfodol.

Byddem yn croesawu eich barn ar gynnwys y llythyr hwn, ond ni fydd ymateb ysgrifenedig ffurfiol yn ofynnol y tro hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Y Cynghorydd Lyndon Jones
Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth
Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk